| Enw'r Ymgeisydd *Candidate's Name* | Rhif y Ganolfan *Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd *Candidate Number* |
|---|---|---|
| | | 0 |

CBAC WJEC

**TGAU**

229/01

**PEILOT CYMRAEG AIL IAITH (CWRS LLAWN)**

***WELSH SECOND LANGUAGE PILOT (FULL COURSE)***

**BYW'R GYMRAEG**
***LIVING THROUGH WELSH***

**GWRANDO A DEALL**
***LISTENING COMPREHENSION***

**HAEN SYLFAENOL**
***FOUNDATION TIER***

A.M. DYDD IAU, 9 Mehefin 2011
*A.M. THURSDAY, 9 June 2011*

Tua 30 munud
*Approximately 30 minutes*

| Rhif y Cwestiwn | Arholwr yn Unig |
|---|---|
| 1 | |
| 2a | |
| 2b | |
| 3 | |
| Cyfanswm | |

0229 010001

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**
Bydd yn rhaid i chi wrando ar dâp i ateb y cwestiynau yn yr arholiad hwn.

**CYFARWYDDIADAU**
Defnyddiwch inc neu feiro du.
Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.
Cewch glywed 4 darn yn Gymraeg.
Cewch glywed pob darn dair gwaith.
Cewch gyfle i edrych ar y cwestiynau cyn clywed y darnau am y tro cyntaf a bydd seibiant ar ôl pob darlleniad.
Ar ddiwedd Cwestiwn 3 bydd seibiant o 1 funud pryd y gallwch edrych dros eich atebion i gyd.
Cewch ysgrifennu'r atebion yn eich llyfr atebion unrhyw bryd yn ystod yr arholiad.

**GWYBODAETH**
Nodir y marciau a ddyfernir ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau fel a ganlyn: [✓ = 2] ac ati.

***ADDITIONAL MATERIALS***
*You must listen to a tape in order to answer the questions in this examination.*

***INSTRUCTIONS***
*Use black ink or black ball-point pen.*
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*
*You will hear 4 passages in Welsh.*
*You will hear each passage three times.*
*You will have an opportunity to look at the questions before listening to each passage for the first time and after all readings there will be a pause.*
*At the end of Question 3 there will be a pause of 1 minute when you can look over all your answers.*
*You may write your answers in the answer book at any time during the examination.*

***INFORMATION***
*Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**CWESTIWN 1** ***(QUESTION 1)***

Gwrandewch ar Dwynwen yn siarad am ei phenwythnos, yna ticiwch y blychau perthnasol.
*Listen to Dwynwen talking about her weekend, then tick the appropriate boxes.* **[10]**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 16 | 17 | 15 | 18 |
| 2 | CAERGWYN | CAERCOCH | CAERGLAS | CAERLLWYD |
| 3 |  |  |  |  |
| 4 | 10:00 | 10:30 | 10:15 | 10:45 |
| 5 |   |  |  |   |

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**6**









**7**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **£5.50** | **£4.50** | **£5.00** | **£5.75** |

**8**











**9**










**10**









0229
010003

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**CWESTIWN 2a** ***(QUESTION 2a)***

Gwrandewch ar sgwrs rhwng Iwan a Ms James, yr athrawes ymarfer corff, yna rhowch y wybodaeth sy ar goll yn y poster **yn Gymraeg**.
*Listen to a conversation between Iwan and Ms James, the PE teacher, then complete the poster with the missing information* ***in Welsh****.*

(5 + ✓ = 5) = **[10]**



**Yr Adran .................................................................. Corff**



**yn trefnu**

**.................................................................. sgïo i'r Swistir**

**yn ystod gwyliau'r .................................................................. 2011.**

**.................................................................. o sgïo bendigedig.**

**Dim ond £250 y person yn cynnwys teithio mewn**

**.................................................................. o faes awyr ..................................................................**

**Aros mewn .................................................................. pren.**

**Beth am ddathlu'r flwyddyn .................................................................. yn y Swistir?**

**Diddordeb? Cysylltwch â Ms James neu Mr Roberts drwy**

**.................................................................. ymarfer.corff@btinternet.com**

**neu drwy .................................................................. 01765 234789.**

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**CWESTIWN 2b** ***(QUESTION 2b)***

Mae pobl ifanc yn cyflwyno arian 'Plant Mewn Angen' i gyflwynydd o'r BBC o flaen Neuadd y Dre. Rydych chi'n gwneud adroddiad ar gyfer y papur lleol. Ar ôl gwrando ar bedwar o bobl ifanc, llenwch y grid **yn Gymraeg** gyda'r wybodaeth berthnasol.
*Young people are presenting 'Children in Need' money to a BBC presenter in front of the Town Hall. You are making a report for the local paper. After listening to four young people, complete the grid* ***in Welsh*** *with the relevant information.*

(10 + ✓ = 10) = **[20]**

| PWY? | O BLE? | FAINT O ARIAN? | GWEITHGAREDD (1) | GWEITHGAREDD (2) |
|---|---|---|---|---|
| **Nia** | 1 + ✓ = ½ = **[1½]** | **£930** | 1 + ✓ = 1½ = **[2½]** | 1 + ✓ = 1½ = **[2½]** |
| **Glyn** | **Clwb ieuenctid** | **[1]** | **Taith gerdded noddedig** | 1 + ✓ = 1½ = **[2½]** |
| **Siân** | 1 + ✓ = ½ = **[1½]** | **£2,000+** | 1 + ✓ = 1½ = **[2½]** | **Siân yn casglu arian mewn bwced** |
| **Ravi** | **Cwmni Theatr yr Ifanc** | **[1]** | 1 + ✓ = 1½ = **[2½]** | 1 + ✓ = 1½ = **[2½]** |



**Trosodd.**

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**CWESTIWN 3** ***(QUESTION 3)***

Mae Cwmni Teledu Auropolis yn chwilio am bobl ifanc i gymryd rhan mewn sioe dalent newydd o'r enw *Diddanu*. Gwrandewch ar ddechrau negeseuon pump o bobl ifanc ar y peiriant ateb, yna llenwch y grid **yn Gymraeg** gyda'r wybodaeth berthnasol.
*Auropolis Television Company are looking for young people to take part in a new talent show called 'Diddanu'. Listen to the beginning of messages from five young people on the answer phone, then complete the grid* ***in Welsh*** *with the relevant information.*

(10 + ✓ = 20) = **[30]**

**1.** Enw: *Eleri* O ble?: *Caergybi*

Gwneud beth? ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

Gwybodaeth arall?

*(a)* ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(b)* ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(c)* *Newydd ei dewis fel aelod o Gerddorfa Ieuenctid Cymru.*

**2.** Enw: *Berian* O ble?: ........................................ [½ + ✓ = ½ = **1**]


Gwneud beth? ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

Gwybodaeth arall?

*(a)* *Mewn grŵp o'r enw 'Llygaid Glas'.*

*(b)* ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(c)* ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]



Arholwr yn unig *Examiner only*

**3.** Enw: *Ellie* O ble?: *Llanandras*

Gwneud beth? ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

Gwybodaeth arall?

*(a)* ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(b)* ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(c)* *Eisiau bod yn llwyddiannus fel Duffy.*

**4.** Enw: *Zaheer* O ble?: ........................................ [½ + ✓ = ½ = **1**]

Gwneud beth? Comedïwr

Gwybodaeth arall?

*(a)* *Yn meddwl ei fod yn ddoniol iawn.*

*(b)* ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(c)* ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

**5.** Enw: *Stacey* O ble?: ........................................ [½ + ✓ = ½ = **1**]

Gwneud beth? ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

Gwybodaeth arall?

*(a)* ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(b)* ........................................ [½ + ✓ = 1 = **1½**]

*(c)* *Wedi cystadlu yn Llangollen.*

**6.** Pa un o'r 5 hoffech chi weld neu glywed? ........................................

........................................

........................................

[1 + ✓ = 1½ = **2½**]

**7.** Pam? ........................................

........................................

........................................

[½ + ✓ = 3 = **3½**]

TGAU

229/01-A

**PEILOT CYMRAEG AIL IAITH (CWRS LLAWN)**

***WELSH SECOND LANGUAGE PILOT (FULL COURSE)***

**BYW'R GYMRAEG**
***LIVING THROUGH WELSH***

**GWRANDO A DEALL**
***LISTENING COMPREHENSION***

**HAEN SYLFAENOL**
***FOUNDATION TIER***

**COPI'R ATHRO/ATHRAWES**
***TEACHER'S COPY***

**SGRIPT TÂP**
***TAPE TRANSCRIPT***

A.M. DYDD IAU, 9 Mehefin 2011
*A.M. THURSDAY, 9 June 2011*

Tua 30 munud
*Approximately 30 minutes*

0229
01A001

Mae'r arholiad cyfan gan gynnwys y seibiannau wedi ei amseru ar y tâp. Ni ddylid stopio'r tâp hyd nes bydd yr arholiad wedi gorffen.
*The whole examination including the pauses has been timed on the tape. The tape should not be stopped until the end of the examination.*

**CWESTIWN 1**

Astudiwch y lluniau ar dudalennau 2 a 3 yn eich llyfr ateb am benwythnos Dwynwen.
*Study the pictures on pages 2 and 3 in your answer book about Dwynwen's weekend.*

Saib (½ munud)

Nawr gwrandewch ar Dwynwen yn siarad am ei phenwythnos, yna ticiwch y lluniau perthnasol.
*Now listen to Dwynwen talking about her weekend, then tick the appropriate pictures.*

1. Dwynwen ydw i. Rydw i'n un deg chwech oed.
2. Rydw i'n mynd i Ysgol Gyfun Caerllwyd.
3. Nos Wener, rydw i'n gwylio'r teledu i ymlacio.
4. Yna gwely cynnar – tua hanner awr wedi deg.
5. Rhaid codi'n gynnar i fynd i'r gwaith yn yr archfarchnad.
6. Bydda i'n gweithio yn yr adran ffonau symudol.
7. Rydw i'n ennill pum punt pum deg ceiniog yr awr.
8. Nos Sadwrn, bydda i'n mynd i'r sinema gyda ffrindiau fel arfer.
9. Nos Sadwrn diwetha' roedd ffilm garu ramantus yno.
10. Dydd Sul rhaid gwneud gwaith cartref – gwaith cwrs Cymraeg Dydd Sul nesa'.

Saib (½ munud)

Dyma Dwynwen eto.
*Here's Dwynwen again.*

Y darn fel uchod.

Saib (½ munud)

Dyma Dwynwen am y tro olaf.
*Here's Dwynwen for the last time.*

Y darn fel uchod.

Saib (½ munud)

**CWESTIWN 2a**

Astudiwch y poster ar dudalen 4 y mae Iwan yn ei baratoi i Ms James, yr athrawes ymarfer corff.
*Look at the poster on page 4 that Iwan is preparing for Ms James, the PE teacher.*

Saib (½ munud)

Nawr gwrandewch ar y sgwrs rhwng y ddau, yna rhowch y manylion sy ar goll ar y poster.
*Now listen to the conversation between the two, then fill in the missing information on the poster.*

| | |
|---|---|
| Ms James: | Bore da, Iwan! Wyt ti'n fodlon gwneud ffafr? |
| Iwan: | Wrth gwrs. Unrhyw beth i'r adran ymarfer corff. |
| Ms James: | Diolch. Mae'r adran – yr adran ymarfer corff – yn trefnu taith sgïo i'r Swistir. Wyt ti'n fodlon paratoi poster i'w roi ar yr hysbysfwrdd? |
| Iwan: | Dim problem. Pryd bydd y daith? |
| Ms James: | Yn ystod gwyliau'r Nadolig. Am wythnos gyfan. |
| Iwan: | Gwyliau sgïo am wythnos gyfan. Gwych! |
| Ms James: | Ie. Bydd eira bendigedig yno. Mae'n bwrw eira yno bob amser. |
| Iwan: | Faint fydd y daith yn costio? |
| Ms James: | Tua £250. Byddwn ni'n teithio mewn awyren o faes awyr Caerdydd. |
| Iwan: | Ble byddwn ni'n aros – mewn gwesty? |
| Ms James: | Nage! Mewn cabanau pren. Byddwn ni'n dathlu'r flwyddyn newydd yno. |
| Iwan: | Dathlu Nos Galan yn y Swistir – mewn caban. Pwy sy'n casglu'r enwau? |
| Ms James: | Fi a Mr Roberts. Gallwch e-bostio ymarfer.corff@btinternet.com neu ffonio Mr Roberts neu fi ar 01765 234789. |
| Iwan: | Iawn. Bydd y poster yn barod bore yfory. Hwyl! |

Saib (½ munud)

Dyma'r sgwrs eto.
*Here's the conversation again.*

Y sgwrs fel uchod.

Saib (½ munud)

Dyma'r sgwrs am y tro olaf.
*Here's the conversation for the last time.*

Y sgwrs fel uchod.

Saib (½ munud)

**CWESTIWN 2b**

Astudiwch y grid ar dudalen 5 am bedwar o bobl ifanc yn cyflwyno arian 'Plant Mewn Angen' i gyflwynydd o'r BBC o flaen Neuadd y Dre.
*Study the grid on page 5 about four young people presenting 'Children in Need' money to a BBC presenter in front of the Town Hall.*

Saib (½ munud)

Nawr gwrandewch ar y pedwar, yna rhowch y wybodaeth berthnasol yn y grid, **yn Gymraeg**.
*Now listen to the four, then put the relevant information in the grid, **in Welsh**.*

Nia: Hylo! Nia ydw i o Ysgol y Castell. Mae siec 'da fi am naw cant, tri deg o bunnoedd. Cawson ni ddau ddydd o hwyl yn yr ysgol. Roedd y disgyblion yn dawnsio drwy'r nos, a'r athrawon yn gwisgo gwisg ysgol.

Saib (¼ munud)

Glyn: Glyn ydw i o'r clwb ieuenctid yn y dre. Rydyn ni wedi casglu pum can punt. Cawson ni daith gerdded noddedig, bu rhai o'r aelodau'n golchi ffenestri o gwmpas y dref, ond y peth gorau oedd y marathon chwarae snwcer. Roedd hi'n grêt.

Saib (¼ munud)

Siân: Hylo! Siân Jones ar ran staff yr archfarchnad. Rydyn ni wedi codi mwy na dwy fil o bunnoedd. Roedd rhaid i'r staff wisgo gwisg ffansi drwy'r dydd. Roedd y rheolwr wedi gwisgo fel Hitler. Roeddwn i'n casglu arian mewn bwced.

Saib (¼ munud)

Ravi: Ravi ydw i. Dw i'n cynrychioli Cwmni Theatr yr Ifanc. Bu'r cwmni'n perfformio *Oliver* yn y neuadd. Roedden ni'n gwerthu bwyd a diod yn ystod yr egwyl ac roedd raffl fawr gyda dau gan punt fel gwobr. Casglon ni saith can punt.

Saib (¼ munud)

Dyma'r pedwar eto.
*Here are the four again.*

Y pedwar fel uchod.

Saib (¼ munud)

Dyma'r pedwar am y tro olaf.
*Here are the four for the last time.*

Y pedwar fel uchod.

Saib (½ munud)

**CWESTIWN 3**

Mae Cwmni Teledu Auropolis yn chwilio am bobl ifanc i gymryd rhan mewn sioe dalent newydd o'r enw *Diddanu*. Astudiwch y grid ar dudalennau 6 a 7 am bump o bobl ifanc sydd â diddordeb.
*Auropolis Television Company are looking for young people to take part in a new talent show called 'Diddanu'. Study the grid on pages 6 and 7 about five young people who are interested.*

Saib (½ munud)

Nawr gwrandewch ar y pump, yna rhowch y wybodaeth berthnasol yn y grid, **yn Gymraeg**.
*Now listen to the five, then put the relevant information in the grid, **in Welsh**.*

Eleri ydw i. Dw i'n byw yng Nghaergybi yn Sir Fôn. Hoffwn i gael cyfle i ganu'r ffidil ar y rhaglen newydd. Dw i'n meddwl fy mod i'n dda iawn. Dw i'n aelod o gerddorfa'r ysgol a cherddorfa'r sir. Dw i newydd gael fy newis yn aelod o Gerddorfa Ieuenctid Cymru.

Saib (¼ munud)

Fy enw i ydy Berian. Rwy'n dod o Wrecsam. Rwy'n chwarae'r drymiau mewn grŵp o'r enw *Y Llygaid Glas*. Mae pump yn y grŵp. Mae'r pump ohonom yn mynd i'r un ysgol. Rydyn ni eisiau gwneud cryno ddisg y flwyddyn nesa.

Saib (¼ munud)

Ellie ydw i o Lanandras. Rydw i'n gallu canu'n dda iawn. Rydw i'n canu'r gitar hefyd. Rydw i wedi ennill yn Eisteddfod yr Urdd. Fy uchelgais ydy bod yn llwyddiannus fel Duffy.

Saib (¼ munud)

Zaheer ydw i o ddinas Caerdydd. Comedïwr ydw i. Yn fy marn i dw i'n ddoniol iawn. Mae fy ffrindiau bob amser yn chwerthin ar fy jôcs. Fy uchelgais ydy cael rhaglen deledu fy hun – fel Rhod Gilbert.

Saib (¼ munud)

Stacey ydw i o Abergwaun yn Sir Benfro. Hoffwn i ddawnsio ar y rhaglen. Rwy'n aelod o barti dawnsio o'r enw *Traed Ysgafn*. Rydyn ni'n ceisio dawnsio fel *Riverdance*, y dawnswyr o Iwerddon. Rydyn ni'n gwneud tipyn o ddawnsio gwerin Cymraeg hefyd. Rydyn ni wedi cystadlu yn Llangollen.

Saib (¼ munud)

Nawr atebwch gwestiynau 6 a 7.
*Now answer questions 6 and 7.*

Saib (½ munud)

Dyma'r disgyblion eto.
*Here are the pupils again.*

Y disgyblion fel uchod.

Saib (½ munud)

Dyma'r disgyblion am y tro olaf.
*Here are the pupils for the last time.*

Y disgyblion fel uchod.

Saib (½ munud)

A dyna ddiwedd y prawf. Bydd eich llyfrau ateb yn cael eu casglu nawr.
*That is the end of the test. Your answer papers will now be collected.*